# CYNGOR ADNEWYDDU'R ECONOMI

## PAPUR DIWEDDARU

## Map o Ardaloedd a Gynorthwyir 2014-2020

### Cyflwyniad

1. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Llywodraeth y DU i adolygu ardaloedd 'c' yn Nwyrain Cymru ar y Map o Ardaloedd a Gynorthwyir ('y Map'). Dynodwyd yr Ardaloedd presennol a Gynorthwyir yn unol â'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd, Erthyglau 107(3) (a) ac (c).

2. Llunnir y Map yn unol â Chanllawiau Cymorth Rhanbarthol 2014-2020, a adolygwyd yn gynharach eleni.

3. Dynodir yr ardaloedd 'a' gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Ymgynghoriad hwn yn ymwneud ag ardaloedd 'c' yn Nwyrain Cymru, y gellir gwneud newidiadau iddynt trwy ymgynghori â Llywodraeth y DU.

4. Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau. Mae'n amlinellu egwyddorion yr Ymgynghoriad a'r metrigau a fydd yn dylanwadu ar y math o ardaloedd a all fod yn gymwys i gael eu cynnwys.

5. Mae Cam 1 yr Ymgynghoriad ar y Map o Ardaloedd a Gynorthwyir yn rhedeg tan 30 Medi 2013. Yn ystod y cam cychwynnol hwn, ceisir awgrymiadau ynghylch cwmpasu gan Awdurdodau Lleol ac unigolion a sefydliadau eraill sydd â diddordeb, a byddir yn ystyried yr egwyddorion a'r wybodaeth leol a wnaiff gyfrannu at baratoi Map drafft i ymgynghori yn ei gylch yn ystod Cam 2. Mae'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau yn gyfrifol am amserlen yr ymgynghoriad, a disgwylir am fanylion amserlen Cam 2.

6. Fel y prif randdeiliaid, gofynnir i Awdurdodau Lleol gyfrannu gwybodaeth leol ynghylch potensial ac angen economaidd yn eu hardaloedd. Mae'r Ymgynghoriad yn annog dull cydweithredol.

7. Dylid anfon ymatebion at yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a Llywodraeth Cymru yn unol â'r manylion ymateb sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfennaeth.

### Cefndir

8. Caniateir Cymorth Rhanbarthol o dan reolau Cymorth Gwladwriaethol i hyrwyddo cydlyniant a chydgyfeirio rhwng rhannau o'r Undeb Ewropeaidd. Diben Cymorth Rhanbarthol yw hyrwyddo datblygiad economaidd ardaloedd difreintiedig penodol yn yr Undeb Ewropeaidd.

9. Mae statws Ardal a Gynorthwyir yn pennu cyfanswm y mathau penodol o Gymorth Gwladwriaethol y gellir ei ddyfarnu i fentrau mewn lleoliadau sydd dan anfantais economaidd. Yn benodol, mae'n pennu'r lefel o gymorth y gellir ei roi i wneud buddsoddiadau cyfalaf mewn ardaloedd sydd dan anfantais, sef cymorth rhanbarthol.

10. Mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn ardal 'a' (a elwir hefyd yn ardal 'Haen 1'), felly mae'n gymwys i gael y lefelau uwch o gymorth a ganiateir gan y Canllawiau Cymorth Rhanbarthol. Mae pob rhan o Ddwyrain Cymru sydd wedi'i dynodi yn ardal 'c' (neu 'Haen 2') yn meddu ar y statws hwn, oherwydd eu hagosrwydd at yr ardaloedd 'a', ac maent yn gymwys i gael lefelau is o Gymorth Rhanbarthol.

11. Atodir map sy'n dangos yr Ardaloedd presennol a Gynorthwyir, ac mae'n dangos yr ardaloedd 'c' presennol sy'n cynnwys rhai wardiau penodol yn y siroedd hyn: Sir y Fflint, de-orllewin Powys, Caerdydd a Chasnewydd.

**Diweddariad**

12. Mae cymorth rhanbarthol yn un o'r dulliau a ddefnyddir gennym ochr yn ochr â fframweithiau Cymorth Gwladwriaethol a pholisïau datblygu economaidd eraill i gefnogi swyddi, twf a chyfoeth yn economi Cymru.

13. Mae'r newidiadau i'r Canllawiau yn golygu y bu cynnydd ym mhoblogaeth y DU y gellir eu cynnwys yn yr Ardaloedd a Gynorthwyir, o 23.9 y cant i 27 y cant.

14. Bydd angen gwneud y defnydd gorau posib o gwmpas poblogaeth ardaloedd 'c' yng Nghymru lle mae ganddo'r potensial economaidd gorau i greu swyddi a thwf, gan ystyried blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol megis Ardaloedd Menter.

15. Bydd Cymorth Rhanbarthol yn dal i fod ar gael i gwmnïau mawr trwy'r ardaloedd a gynorthwyir, ond caiff ei gyfyngu i 'fuddsoddiadau cychwynnol' sy'n creu gweithgareddau economaidd newydd yn yr ardaloedd 'c' neu i arallgyfeirio sefydliadau yn gynhyrchion newydd neu brosesu arloesedd.

**Amserlen**

16. Yn dilyn Cam 1, adolygir y dystiolaeth a bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu Map dewisol ar gyfer Cam 2 yr Ymgynghoriad.


17. Lle bydd hynny'n briodol, rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru'n trafod y dystiolaeth â rhanddeiliaid a gyfrannodd dystiolaeth yng Ngham 1.

18. Yn y pen draw, bydd angen i Weinidogion Cymru a Llywodraeth y DU gymeradwyo'r Map cyn ei anfon at yr Undeb Ewropeaidd.

19. Bydd y Canllawiau a'r Map newydd yn weithredol o 1 Gorffennaf 2014, felly mae'n bwysig fod busnesau'n ymwybodol o'r newidiadau.

**Atodiad**

20. Map 2007-13




© Crown copyright 2006. All rights reserved. National Assembly for Wales. Licence Number: 100017916

**Cymru: Map o'r Ardaloedd a Gynorthwyir 2007-2013**

**Cwmpas yr Ardaloedd a Gynorthwyir**

**Ffin Awdurdod Lleol**

**Ffynhonnell y Data: Adrannau Etholiadol 2006**

**Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Hawlfraint y Goron 2006. Cedwir pob hawl. Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Rhif y Drwydded:**